


GILLESPIES

GORFFENNAF 2014



TYRBINAU GWYNT A PHEILONAU

**CANLLAW AR GYMHWYSO PELLTEROEDD
GWAHANU ODDI WRTH EIDDO PRESWYL**

CRYNODEB GWEITHREDOL



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



CRYNODEB GWEITHREDOL

ADRAN 1: CYFLWYNIAD

Diben yr Astudiaeth

- 1.1 Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan Gyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngorau) ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Awdurdod y Parc) er mwyn penderfynu addasrwydd cymhwyso isafswm pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau gwynt neu beilonau ac eiddo preswyl er mwyn diogelu mwynderau gweledol preswyl.
- 1.2 At ddibenion yr astudiaeth hon, mae **Mwynder gweledol preswyl** yn cyfeirio at y mwynder gweledol sy'n cael ei brofi gan eiddo preswyl gan gynnwys eu gerddi. Mae hwn yn is-gyfes o fwynder preswyl sydd hefyd yn cynnwys agweddau megis sŵn, golau a dirgryniad. Wrth wneud dyfarniad ynghylch mwynder gweledol preswyl, mae'n bwysig nodi nad yw newid sylweddol andwyol posib i'r olygfa allan o eiddo yn do'i hun yn arwain at niwed perthnasol i amodau byw – mae angen bod rhywfaint o niwed tu hwnt i hyn, er enghraifft, effaith ymwithiol gormodol neu effaith ormesol, i warantu gwrthod neu wneud argymhelliad i wrthod cais cynllunio.
- 1.3 Mae'r Cyngorau ac Awdurdod y Parc dan bwysau ynglŷn ag ynni gwynt a datblygiadau llinellau pŵer 400kV uwchben. Mae cymunedau lleol a Chynghorwyr yn bryderus ynglŷn ag ardrawiad gweledol posib tyrbinau gwynt neu beilonau ar olygfeydd o eiddo preswyl yn ardal yr astudiaeth.
- 1.4 Mae'r astudiaeth yn rhoi sail dystiolaeth i gyfrannu at y polisiau yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn (CDLI ar y Cyd) sydd ar fin dod allan ac unrhyw adolygiad polisi yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE); gall fod hefyd yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth ystyried ceisiadau cynllunio perthnasol yn y cyfamser.

Dull yr Astudiaeth

- 1.5 Nid oes dull cydnabyddedig cenedlaethol ar gyfer sefydlu isafswm y pellteroedd gwahanu generig ar gyfer tyrbinau gwynt neu beilonau oddi wrth eiddo preswyl yn seiliedig ar yr ardrawiadau gweledol posib. Cyngor Llywodraeth Cymru yw y dylid beirniadu pob achos yn annibynnol ac yn ôl ei rinweddau ei hun.
- 1.6 Fel man cychwyn i sefydlu p'un a ddylid cymhwyso'r isafswm pellteroedd gwahanu neu beidio, ac os hynny, beth ddylent fod, ymgwymerwyd i ddechrau â'r ymchwil pen desg a'r dadansoddiad a ganlyn o'r materion:
 - Polisi cynllunio a chanllawiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol;
 - Canllawiau perthnasol eraill cyfredol;
 - Astudiaethau cymharol; a

- Penderfyniadau apeliadau cynllunio (gan gynnwys cyswllt â swyddogion y CDLI ar y Cyd ar Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau eraill yng Nghymru er mwyn nodi'r penderfyniadau apeliadau cynllunio perthnasol ac unrhyw ddata perthnasol arall a ellid ei ddefnyddio fel tystiolaeth i gefnogi'r astudiaeth).

1.7 Dadansoddwyd canfyddiadau'r ymchwil pen desg ac adnabuwyd ystod briodol o bellteroedd (er mwyn asesu graddfa debygol yr ardrawiadau gweledol gan dyrbinau gwynt a pheilonau presennol) i brofi a/neu gefnogi'r ymchwil.

1.8 Defnyddiwyd data GIS (a ddarparwyd gan y Cynghorau ac Awdurdod y Parc) er mwyn canfod nifer o leoliadau hygyrch yn ardal yr astudiaeth lle gellid gweld tyrbinau gwynt a pheilonau yn y dirwedd. Dewiswyd un enghraifft o bob band uchder ynni gwynt a dau beilon ac ymgwymerwyd â gwaith maes.

ADRAN 2: SAIL DYSTIOLAETH

Adolygiad o Ddeddfwriaeth, Polisiâu a Chanllawiau

- 2.1 Dangosodd adolygiad o ddeddfwriaeth, polisiâu ac arweiniad ar gyfer tyrbinau gwynt yn fuan iawn nad yw sefydlu pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau ac eiddo preswyl o ran mwynder gweledol preswyl yn fater syml. Adlewyrchir hyn yn yr ystod eang o bellteroedd gwahanu a argymhellir gan ganllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol. Yr unig ganllaw cenedlaethol presennol ar bellter gwahanu ar gyfer mwynder gweledol yw'r pellter gwahanu cymunedol¹ o 2 Km sy'n cael ei arddel yn yr Alban. Mae canllawiau cynllunio lleol yn amrywio'n fawr; er enghraifft mae'r arweiniad ar bellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau sy'n mesur oddeutu 20m-25m at frig eu llafnau oddi wrth eiddo preswyl yn amrywio o 350m (Cynllun Lleol Milton Keynes) i hyd at 1 Km (Strategaeth Graidd Wiltshire). Mae'n bwysig nodi bod y bandiau uchder/disgrifiadau o dyrbinau yn aml yn amrywio mewn canllawiau cenedlaethol a lleol a weithiau mae isafswm y pellteroedd gwahanu yn rhoi ystyriaeth i ffactorau eraill megis sŵn a chysgodion. Bydd rhai awdurdodau lleol yn cymhwyso pellteroedd gwahanu cymharol llym oddi wrth eiddo preswyl, tra bod eraill yn rhoi arweiniad mwy cyffredinol a byddant yn cydnabod y gall ffactorau megis topograffi a llystyfiant leihau'r ardrawiadau ar fwynder gweledol preswyl.

Cyd-destun Polisiâu a Chanllawiau Cenedlaethol – Tyrbinau Gwynt

- 2.2 Yng **Nghymru**, nid oes isafswm pellteroedd gwahanu wedi'u rhagnodi'n genedlaethol rhwng tyrbinau gwynt arfaethedig ac eiddo preswyl presennol yn seiliedig ar yr ardrawiadau gweledol andwyol posib. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn gofyn bod y polisi a'r canllaw cynllunio lleol yn seiliedig ar dystiolaeth gref.

¹ Pellter gwahanu rhwng cymunedau a ffermydd gwynt

Cyd-destun Polisiâu a Chanllawiau Cenedlaethol – Peilonau

- 2.3 Ar hyn o bryd, nid oes canllaw cynllunio wedi'i gyhoeddi yn y DU sy'n ymwneud â phellter gwahanu rhwng peilonau ac eiddo preswyl. Fodd bynnag, mae Rheolau Holford gyda NGC (1992) a nodiadau SHETL (2003) yn cyfeirio at leihau'r ardrawiadau ar bobl, ardaloedd preswyl ac ati fel a ganlyn:

a. Dylid osgoi gosod llwybr y peilonau yn agos at ardaloedd preswyl cyn belled ag y bo modd ar sail mwynderau cyffredinol

b. Dylid osgoi dominyddu tai unigol, ffermydd neu aneddiadau bychain eraill mewn ardaloedd gwledig cyn belled ag y bo modd

Ar hyn o bryd, Rheolau Holford yw'r canllawiau presennol y cyfeirir atynt yn y Datganiadau Cynllunio Cenedlaethol ar gyfer Prosiectau Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol.

Adolygiad o Apeliadau Cynllunio – Tyrbinau Gwynt

- 2.4 Mae'r tabl yn Atodiad 2 (o'r adroddiad llawn) yn crynhoi'r adolygiadau o nifer o apeliadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni gwynt arfaethedig (y rhan fwyaf o'r achosion yn dyddio o 2009). Mae pob penderfyniad apêl ysgrifenedig wedi'i ddadansoddi; yn benodol, pob testun allweddol sy'n ymwneud â sylwadau ar fwynder gweledol preswyl a phellteroedd y tyrbinau arfaethedig oddi wrth eiddo preswyl. Mae manylion uchder y tyrbinau a'u pellter oddi wrth eiddo wedi'u cynnwys yn y tabl ynghyd â'r casgliadau/sylwadau a roddwyd ynglŷn â ph'un a ystyriwyd bod yr effaith cyffredinol ar fwynder gweledol preswyl yn annerbyniol neu beidio, **h.y. mor eithriadol o annymunol ac anochel fel y gallai arwain at niwed perthnasol i amodau byw fyddai'n gwarantu gwrthod caniatâd cynllunio er lles y cyhoedd.**

Adolygiad o Geisiadau Cynllunio – Peilonau

- 2.5 Ni fu unrhyw apeliadau cynllunio diweddar mewn perthynas â datblygiadau llinellau pŵer 400 kV uwchben. Fodd bynnag, un o'r datblygiadau llinellau pŵer 400 kV uwchben mwyaf diweddar a dderbyniodd ganiatâd cynllunio yn y DU yw'r llinell a uwchraddiwyd rhwng Beaulieu a Denny yn yr Alban a dderbyniodd ganiatâd yn 2010. Mae Pennod 24 (Effeithiau Gweledol), Datganiad Amgylcheddol (DA) Beaulieu i Denny yn datgan y canlynol:

'every effort has been made to maintain a minimum distance of 100 m between any residential property and the proposed line' (paragraph 24.5.1.3)

'The 100 m distance has been established as a general guide in order to address concerns relating to visual amenity. The 100 m distance has been proposed as, at this distance, for a property located on level ground and with a garden extending to 15 m from the house, a 10 m tall tree at the end of the garden will screen views of a 55 m tall tower located at 100 m from the property. However, not all properties will be on level ground or with gardens 15 m in length. The

situation at each property close to the line has been assessed and the information relating to properties where a major adverse effect is anticipated, is included in Technical Annex 24.2.’ (paragraff 24.5.1.4)

- 2.6 O'r eiddo a aseswyd yn Atodiad Technegol 24.2 (Arolwg Agosrwydd) y DA, roedd pob un eiddo ble rhagwelwyd y byddai ardrawiad andwyol mawr iawn o fewn 400m i'r llinell arfaethedig ac roedd y rhan fwyaf ohonynt o fewn 200m. Ni chwblhawyd asesiad mwynder gweledol preswyl penodol i gefnogi'r cais.

ADRAN 3: ASESU'R ARDRAWIADAU GWELEDOL

Mae **graddfa'r ardrawiad gweledol** yn cyfeirio at y canlynol:

- Graddfa'r newid yn yr olygfa o ran colli neu ychwanegu at nodweddion yn yr olygfa a newid yn ei chyfansoddiad, gan gynnwys y gyfran o'r olygfa sy'n cael ei meddiannu gan y datblygiad arfaethedig;
- Graddfa'r cyferbyniad neu integreiddiad unrhyw nodweddion newydd neu newidiadau yn y dirwedd gydag elfennau'r dirwedd bresennol neu'r rhai sy'n weddill a'r rhinweddau o ran ffurf, graddfa a màs, llinell, uchder, lliw a gwedd; a
- Natur golygfa'r datblygiad arfaethedig o ran yr amser cymharol y gellir cael y profiad o'i weld a ph'un a fydd yr olygfa yn llawn, yn rhannol neu ddim ond cipolwg"² (GLVIA3, paragraff 6.39)

Gellir diffinio **ardrawiad gweledol ar raddfa fawr iawn** fel newid ar raddfa fawr iawn yn yr olygfa oherwydd bod elfennau newydd, anghydnaws, nad ydynt yn nodweddiadol ac sy'n ymwithiol yn yr olygfa wedi'u cyflwyno a allai ffurfio prif elfen yr olygfa neu ei dominyddu a gallai orlethu'r gwylwr. Gall hyn ddigwydd ble byddai datblygiad arfaethedig mewn lleoliad agos iawn at y gwylwr, yn union o flaen y llygaid, neu'n effeithio ar ran sylweddol o'r olygfa a ble y byddai'n amlwg o fewn, neu'n cyferbynnu â'r cyd-destun gweledol ac yn tynnu oddi wrth ei fwynder gweledol.

- 3.1 Yn dilyn adolygiad o apeliadau cynllunio diweddar ac o'r profiad o ymgymryd ag Aseidiadau'r Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) ac aseidiadau mwynderau gweledol preswyl, cydnabyddir y bydd **y trothwy ar gyfer ardrawiadau gweledol annerbyniol yn aml yn uwch na'r pwynt ble**

² Landscape Institute and Institute for Environmental Management and Assessment (2013) *Guidelines for Landscape and Visual Impact Assessment*, Rhifyn 3, Routledge

yr asesir bod graddfa'r ardrawiad gweledol yn fawr iawn. Fodd bynnag, at ddibenion ystyried y pellteroedd gwahanu rhwng eiddo preswyl a thyrbinau gwynt neu beilonau, argymhellir bod y trothwy ar gyfer ystyried p'un a fyddai ardrawiad annerbyniol ar fwynder gweledol preswyl yn cael ei sefydlu o unrhyw eiddo ble y rhagwelir y byddai'r ardrawiad gweledol yn uchel iawn.

Asesiad o Ardrawiad Gweledol Tyrbinau Gwynt neu Beilonau ar Dderbynyddion Preswyl

- 3.2 Wrth asesu arwyddocâd ardrawiadau gweledol tyrbinau gwynt neu beilonau ar dderbynyddion preswyl, ystyriwch **graddfa bosib yr ardrawiad neu'r newid yn yr olygfa** ynghyd â **sensitifrwydd** y derbynyddion. Fel y nodwyd yn GLV1A3, yn gyffredinol, derbynnir gan weithwyr proffesiynol yn y dirwedd yr ystyriwch bod **derbynyddion preswyl yn dderbynyddion gweledol gyda sensitifrwydd uchel, felly yr unig newidyn fydd graddfa'r ardrawiad.**
- 3.3 Disgrifir **graddfa'r ardrawiad** yn uchel, canolig, isel neu ddibwys (positif, negyddol neu niwtral) ond mae terminoleg megis mawr iawn, mawr, canolig, bychan, bychan iawn a dibwys (positif, negyddol neu niwtral) hefyd yn gallu cael eu defnyddio.
- 3.4 Bydd asesiad o raddfa debygol yr ardrawiad yn ddibynnol ar raddfau'r newidiadau yng nghyfansoddiad yr olygfa yn sgil cyflwyno'r tyrbinau gwynt neu'r peilon, gan gymryd i ystyriaeth ei agosrwydd a chyfran yr olygfa a feddiannir gan y datblygiad a hefyd ei amlygrwydd fel y sefydlir gan nifer o ffactorau newidiol (trafodir hyn ymhellach yn yr adroddiad llawn, paragraff 4.14 a Thabl 4.4).
- 3.5 **Rhagwelir y bydd yr ardrawiadau gweledol andwyol mwyaf sylweddol i'w cael ble y gall derbynyddion preswyl (eiddo preswyl) brofi ardrawiad ar raddfa fawr iawn (neu newid yn eu golygfa).** Oherwydd bod yr astudiaeth hon yn ymwneud yn bennaf â sefydlu p'un a ddylid cymhwyso isafswm pellter gwahanu i rwystro ardrawiadau annerbyniol ar fwynder gweledol preswyl neu beidio, mae'n bwysig ailadrodd y ffaith nad yw ardrawiad andwyol sylweddol ar yr olygfa allan o eiddo preswyl ynddo'i hun yn arwain at niwed perthnasol i amodau byw. Mae'n rhaid i lefel y niwed fod tu hwnt i hyn i warantu gwrthod er budd y cyhoedd³.

Bandiau Uchder Datblygiadau Ynni Gwynt

- 3.6 Er mwyn asesu'r pellter lle gall uchder tyrbinau gwynt beri graddfeydd mawr o ardrawiad gweledol, ystyriwch y pump band⁴ uchder a ganlyn:
- Hyd at 25m
 - 25.01 – 50m

³ Bydd pob cyfeiriad at uchder tyrbinau gwynt yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at yr uchder hyd at frig y llafn.

- 50.01 – 75m
- 75.01 – 100m
- 100.01 – 150m

3.7 Mae'r bandiau hyn yn seiliedig yn fras ar yr uchder a sefydlwyd gan deipoleg datblygiadau ynni gwynt a nodir yn Asesiad Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd yn Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri ⁵.

Peilonau

3.8 Er y gall peilonau ar gyfer datblygiadau llinellau pŵer 400kV uwchben amrywio mewn uchder o oddeutu 35m i 60m, mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar beilonau sy'n amrywio o 40m-60m, gan mai dyma'r ystod uchder a geir fel arfer yn ardal yr astudiaeth. Ni roddir ystyriaeth ond i beilonau o ddyluniad twr dur delltog traddodiadol.

ADRAN 4: PROFI PELLTEROEDD AR SAFLE

Adolygiad yn y Maes

- 4.1 Yn dilyn yr ymchwil pen desg, ymgwymerwyd ag adolygiad yn y maes er mwyn sefydlu amrediad y pellteroedd o fewn yr hyn y gallai tyrbinau gwynt neu beilonau beri ardrawiad gweledol ar raddfa fawr iawn (ac felly gallai beri ardrawiadau annerbyniol o ran mwynder gweledol preswyl).
- 4.2 Mae'n bwysig nodi fod sgôp yr astudiaeth hon yn gyfyngedig. Dewiswyd un enghraifft o dyrbin gweithredol o fewn pob band uchder a restrir ym mharagraff 3.8 y prif adroddiad, a dwy enghraifft o beilonau o fewn ardal yr astudiaeth mewn cydweithrediad â'r Grŵp Llywio (yn seiliedig ar ddata GIS a data AO cyfredol am dyrbinau gwynt gweithredol). Yn ogystal â'r uchder, roedd y meini prawf i ddewis y tyrbinau a'r peilonau yn cynnwys hygyrchedd o ran bod y golygfeydd yn agored a hygyrchedd cyhoeddus i allu asesu'r safle a chael ffotograffau. Dewiswyd enghreifftiau o ddau beilon er mwyn dangos gwahanol raddfeydd yr ardrawiadau gweledol a dangos effeithiau ffactorau newidiol, megis a ellid gweld y strwythur yn erbyn cefnlen solid fel tiffurf neu lystyfiant neu a ellid ei weld yn erbyn y ffurfafen.
- 4.3 Roedd yr asesiadau ar gyfer safleoedd pob un o'r enghreifftiau hyn yn sefydlu amrediad dangosol o'r pellteroedd y gallai'r fath strwythurau ddechrau peri ardrawiad gweledol ar raddfa fawr iawn. Mae Tabl 4.2 y prif adroddiad yn crynhoi darganfyddiadau'r adolygiad safle.

⁴ Gillespies (2014), Asesiad Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd yn Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri

Tabl 4.2: Canlyniadau'r Aseidiadau Safle

	Uchder*	Pellter dangosol o fewn yr hyn y gallai'r strwythur achosi ardrawiad gweledol ar raddfa fawr iawn
Tyrbinau Gwynt	17.8m	tua 130m
	34.2m	tua 280m
	53m	tua 400m
	93m	tua 750m
Pheilonau	50-59m	tua 400m
	55-59m	tua 400m

*Uchder y tyrbin gwynt hyd at frig y llafn

Model Uchder Amlwg Damcaniaethol i Gefnogi'r Adolygiad yn y Maes

- 4.4 Er mwyn cefnogi'r asesiad safle, defnyddiwyd model mathemategol i gyfrifo uchder amlwg tyrbin neu beilon pan fo gwyliwr yn gwybod ei wir uchder a'i bellter oddi wrtho. **Diffinnir uchder amlwg tyrbin neu beilon fel yr uchder y byddai'r strwythur yn ymddangos i'r gwyliwr hyd braich (61cm) oddi wrtho** (h.y. byddai'r strwythur yn ymddangos yr un uchder â gwrthrych Xcm o uchder sy'n cael ei ddal hyd braich (61cm) oddi wrth y gwyliwr).
- 4.5 Mae uchder amlwg pob tyrbin gwynt a pheilon a aseswyd yn eu safleoedd wedi'u cyfrifo (yn seiliedig ar y model hwn) ac fe'u dangosir ochr yn ochr â'r manau lle gellir eu gweld yn Atodiad 3 y prif adroddiad (er cymharu pellteroedd sy'n wybyddus a'r uchder amlwg). Mae Tabl 4.3 y prif adroddiad yn dangos bod cydberthynas rhwng uchder amlwg y strwythur a'r pellteroedd dangosol o fewn yr hyn y gall y strwythurau achosi ardrawiadau gweledol ar raddfa fawr iawn.
- 4.6 Fel y nodwyd uchod ac ym mharagraff 2.10 a 3.6 y prif adroddiad, yn ogystal ag uchder y strwythur a'i bellter oddi wrth dderbynnnydd, mae nifer o ffactorau newidiol a all effeithio ar asesiad o raddfa'r ardrawiad gweledol drwy ei leihau neu ei gynyddu. Amlinellir y ffactorau hyn yn Nhabl 4.4⁶ o'r prif adroddiad.
- 4.7 Gall y ffactorau newidiol hyn hepgor y posibilrwydd y bydd tyrbin gwynt neu beilon yn peri ardrawiadau annerbyniol ar fwynder gweledol preswyl hyd yn oed petai eiddo preswyl yn syrthio o fewn y pellteroedd dangosol a welir yn Nhabl 4.3 y prif adroddiad.

⁵Yn Seiliedig ar Ffigur 2: *Conceptual Model for Visual Impact Assessment*, Prifysgol Newcastle (2002) *Visual Assessment of Windfarms Best Practice*. Adroddiad a gomisiynwyd gan Scottish Natural Heritage F01AA303A

ADRAN 5: ARGYMHELLION

- 5.1 Mae dadansoddiad o'r canllawiau a'r gyfraith achos ddiweddaraf yn dangos bod amrywiaeth o bellteroedd allai beri ardrawiadau annerbyniol ar fwynder gweledol preswyl ac nid yw hyn yn gwbl ddbynnol ar y berthynas rhwng uchder ac agosrwydd y tyrbín neu'r peilon oddi wrth eiddo preswyl.
- 5.2 Felly, nid oes tystiolaeth derfynol i gefnogi cymhwyso'r isafswm pellteroedd gwahanu rhwng eiddo preswyl a thyrbinau gwynt neu beilonau o ran mwynder preswyl gweledol. Am y rheswm hwn, argymhellir yr ystyrir pob datblygiad arfaethedig ar ei rinweddau ei hun ar sail achos wrth achos.
- 5.3 Er na argymhellir pellteroedd gwahanu llym, ystyrir bod y defnydd o bellteroedd dangosol i gychwyn asesiad mwynder gweledol preswyl (o fewn hyn mae posibilrwydd y ceir ardrawiadau gweledol ar raddfa fawr iawn), yn declyn gwerthfawr i adnabod unrhyw leoliadau ble y dylid ymgymryd ag asesiad mwynder gweledol preswyl i nodi'r ardrawiadau annerbyniol posib o ran mwynder gweledol preswyl.
- 5.4 Mae'r canllaw arfaethedig i 'bellteroedd i gychwyn asesiad mwynder gweledol preswyl' ar gyfer tyrbínau gwynt a/neu beilonau mewn bandiau uchder bras i'w gweld yn Nhabl 5.1 isod:

Tabl 5.1: Arweiniad Bras i'r Pellteroedd i Gychwyn Asesiad Mwynder Gweledol Preswyl ar gyfer Tyrbinau Gwynt a Pheilonau

	Uchder*	Pellter i Gychwyn Asesiad Mwynder Gweledol Preswyl (Posibilrwydd o Ardrawiad Gweledol ar Raddfa 'Fawr iawn')
Tyrbinau Gwynt	Hyd at 25m	O fewn 200m
	25.01 – 50m	O fewn 400m
	50.01 – 75m	O fewn 600m
	75.01 – 100m	O fewn 800m
	100.01 – 150m	O fewn 1.22km
Peilon	Hyd at 40m	O fewn 350m
	40.01 – 60m	O fewn 500m

* Uchder y tyrbín gwynt hyd at frig y llafn

- 5.5 Mae'n bwysig tanlinellu'r ffaith, yn ychwanegol i'r uchod y ceir nifer o ffactorau newidiol a all effeithio ar asesiad o raddfa'r ardrawiad gweledol drwy ei leihau neu ei gynyddu (cyfeiriwch at Dabl 4.4. y prif adroddiad). Bydd yn rhaid cymryd pob un o'r rhain i ystyriaeth wrth sefydlu pellter cytunedig y gellir ei roi ar gyfer ymgymryd ag asesiad mwynder gweledol preswyl.